

Galwad am werthuswyr allanol

Cefndir

Mae Canolfan Gerdd William Mathias (CGWM) wedi derbyn nawdd gan Music Challenge Fund mudiad Spirit 2012 (www.spiritof2012.org.uk) er mwyn rhedeg prosiect 'Canfod y Gân/Discover the Song' dros dair blynedd. Bydd y prosiect yn dod ag unigolion sydd ag anableddau ac unigolion sydd heb anableddau ynghyd i gymryd rhan cyfartal mewn gweithgareddau cerddoriaeth cyson gyda'r nod o wella iechyd meddwl a llesiant.

Bydd CGWM yn gweithio mewn partneriaeth gyda thîm Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd a fydd yn cyfeirio unigolion gyda anableddau dysgu i'r prosiect.

Rydym eisiau derbyn ceisiadau gan werthuswyr allanol i weithio gyda ni drwy gydol y prosiect er mwyn :

- casglu tystiolaeth o effaith y prosiect,
- cynorthwyo wrth baratoi adroddiadau i'r noddwr.
- cynorthwyo i rannu ein dysgu a'n canfyddiadau.

Gweledigaeth a nodau

Mae gan bawb gân i'w chanu ac mae pawb yn haeddu'r cyfle i ddarganfod a rhannu eu cân.

O ddiwedd mis Ebrill bydd tri grwp yn cyfarfod bob pythefnos yn Harlech, Pwllheli a Chaernarfon. Pob chwe mis, bydd y grwpiau yn perfformio'n gyhoeddus unai yn eu cymuned neu mewn gwyliau cerddoriaeth lleol a/neu'n genedlaethol gyda'r nod o newid ymagweddau tuag at anableddau.

Dymunwn werthuso effaith y prosiect ar yr amcanion isod :

- Llesiant
- Iechyd meddwl
- Ymagwedd tuag at anabled
- Cynyddu'r gronfa o gerddorion sy'n cynnal sesiynau cerdd integredig yng Ngogledd Cymru

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am y canlynol :

- Datblygu a gweithredu eu methodoleg eu hun, wedi ei gymeradwyo gan CGWM a Spirit 2012.
- Cynhyrchu adnoddau a deunyddiau perthnasol sydd ei angen ar gyfer y broses werthuso e.e holiaduron ayyb.
- Cyfrannu data, gwybodaeth ac adborth i adroddiadau fesul chwe mis, ac adroddiadau blynyddol a ddarperir i Spirit 2012, drwy gydol y prosiect.

- Cynhyrchu adroddiad adolygol cynhwysfawr sy'n mesur llwyddiant y prosiect i ymgynhyrchu â'r amcanion gan ddefnyddio data meintiol ac ansoddol wedi ei gyflwyno mewn ffordd sy'n rhannu'r amcanion gyda'r cyfranogwyr, CGWM a Spirit of 2012. Dymunwn drafod fformat yr adroddiadau gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus gan ein bod yn eiddgar i dderbyn gwir ddealltwriaeth o effaith y prosiect, ond ar yr un pryd fod yn derbyn adroddiadau darllendwy a chryno.
- Cefnogi gwelliant parhaus yn rhediad y prosiect drwy rannu data a gwybodaeth, gan sicrhau ansawdd.
- Defnyddio Mesurau Llesiant Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth gasglu data ac adborth.

Cwestiynau allweddol y gwerthusiad

Llesiant

I ba raddau mae'r unigolyn yn teimlo'n fwy hyderus drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd cerddorol?

Ydy'r unigolyn yn teimlo'n hapusach ers cychwyn y prosiect?

Iechyd meddwl

Ydy iechyd meddwl y cyfranogwyr wedi gwella drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd cerddorol rheolaidd?

Ymagwedd at anabledd

Ydy ymagwedd y cyfranogwyr o'r hyn y mae unigolion gyda anableddau yn gallu cyflawni, a'u cyfraniad i gymdeithas, wedi newid?

Effaith ar diwtoriaid cerdd

Ydy'r tiwtoriaid yn fwy hyderus ac wedi eu sgilio'n briodol i ddarparu sesiynau cerddoriaeth integredig i gyfranogwyr gyda anableddau dysgu a chyfranogwyr heb anableddau dysgu?

Dymunwn werthuso effaith y prosiect ar daclo unigrwydd. Disgwylwn i'r ymgeisydd llwyddiannus gynnig arweiniad ar y mater.

Sgiliau hanfodol i gefnogi'r gwaith

- Y gallu i gynnal cyfweiliadau a pharatoi holiaduron dwyieithog (Cymraeg a Saesneg)
- Defnydd o'r Mesur Llesiant a gynhyrchir gan Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Profiad o werthuso a chasglu tystiolaeth gan oelion gyda anableddau dysgu neu unigolion sy'n ddieiriol.

Amserlen penodi a'r prosiect

| | |
|---|-----------------------|
| Cyhoeddi tender | 7fed Chwefror, 2019 |
| Dyddiad Cau, Cyflwyno cais | 11eg Mawrth 2019, 9am |
| Penodi | 13eg Mawrth 2019 |
| Amlinellu fframwaith a dulliau gwerthuso | 31ain Mawrth 2019 |
| Adroddiad o waelodlin | 31ain Mai 2019 |
| Bwydo i Adroddiad blwyddyn gyntaf Spirit 2012 | 30ain Tachwedd 2019 |
| Bwydo i adroddiad chwe misol Spirit 2012 | 31ain Mai 2020 |
| Bwydo i Adroddiad yr ail flwyddyn | 30ain Tachwedd 2020 |
| Bwydo i adroddiad chwe misol Spirit 2012 | 31ain Mai 2021 |
| Adroddiad terfynol | 30ain Tachwedd 2021 |

Ffioedd

Mae ffi o £14,000 ar gael i'r broses werthuso, sy'n cynnwys yr holl gostau a

TAW. Dyma linc i Fodel [Rhesymu Logic Model Spirit 2012](#).

Asesir yr ymgeiswyr yn erbyn meini prawf canlynol :

- Eglurder cyfathrebu
- Profiad o ymchwilio i themâu tebyg
- Methodoleg clir
- Chwilfrydedd deallusol ac ymrwymiad i ddarparu mewnwelediad pwrpasol
- Gwerth am arian

Sut i ymgeisio

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn ymgeisio, cyflwynwch eich cynnig (dwy dudalen) gan amlinellu yn fras :

- eich profiadau perthnasol,
- eich methodoleg/dulliau gwerthuso
- dau ganolwr
- cyllideb

Gyrrwch eich cynnig (erbyn 9am, 11 Mawrth 2019) at Mared Gwyn-Jones – mared@cgwm.org.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Meinir Llwyd Roberts ar 01286 685230 / 07967274617 / meinir@cgwm.org.uk

